

Cofion

- Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddiâu heddiw eto. Cofiw'n yn arbennig am Falmai Evans (Saron), Thomas Evans (Llanfair) a Geraint Davies (Llansannan), y tri ohonynt yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd at Menna Streeter (Henllan) sy'n parhau'n yr Inffirmari. Mae Elfed Davies (Saron) bellach wedi cael ei symud dros dro i Glan Traeth, Y Rhyl, ond mae'n dda clywed bod Elena Owen (Llanefydd), Mair Owen (Llanfair) a Megan Jones (Nantglyn) wedi cael dod adre o'r ysbyty erbyn hyn. Cofiw'n am eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn hefyd ac am y rhai sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth. Hyderwn y byddant oll yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen.
- Estynnwn ein dymuniadau gorau i'r Parch. Rhun Murphy (DAWN Cymru) a Gwawr Esyllt Davies fydd yn priodi ddydd Gwener nesaf yn Llangefni. Gweddiwn y byddant yn cael diwrnod cofiadwy a bendithion lu i'r dyfodol.

I ddod

- 'Moliant ac Emy'n' fydd thema'r sesiwn nesaf o'r **Cwrs i Flaenoriaid ac Aelodau Eglwysi'r Henaduriaeth** yn Nhrefnant ar Mehefin 8fed gyda Ben Nuss ac Owain Edwards yn arwain.
- Bydd cyfle i ferched o bob oed (16+) i ymlacio, rhannu cymdeithas a dysgu yn y **Diwrnod Genod** yng Ngholeg y Bala, Mehefin 10fed-11eg. Enwau, ynghyd â'ch dewis o fwyd erbyn Mehefin 3ydd. Mwy o fanylion gan Mair (870632) neu trwy ffonio'r Coleg (01678 520565).
- '**Dewch i Ddathlu**' – parti i ddathlu 200 mlwyddiant Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Ngholeg y Bala, dydd Sadwrn, Mehefin 18fed rhwng 10.30 a 3.30. Diwrnod o gemau, drama, dawnsio, sgwrsio, addoli a llond trol o hwyl i'r teulu cyfan. Dewch â picnic!
- Bydd **Martyn Geraint** yn dod draw i'r Fro i oedfa'r bore ein Sul **i-Crist** eleni a gynhelir ar Orffennaf 3ydd yn Llansannan. Yna, bydd cyfle pellach ar ôl yr oedfa i gymdeithasu ac i gael picnic yn y Brenig. Bydd trefniadau eraill wedi eu gwneud os na fydd y tywydd yn ffafriol.
- Bydd y cwrs **Souled Out**, sydd ar gyfer ieuencid hŷn, yn cael ei gynnal yng Ngholeg y Bala, Awst 12fed-19fed. Mae'r Henaduriaeth yn cynnig cymhorthdal o hyd at 25% i bob unigolyn sydd am fynd ar y cwrs. I dderbyn y cymhorthdal, cysylltwch â Mair (870632) mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 29^{ain} Mai 2011

Cofiwch bod angen enwau ar gyfer y Diwrnod Genod yng Ngholeg y Bala erbyn dydd Gwener nesaf. Mwy o fanylion ar y cefn.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da! Croeso cynnes iawn i oedfaon y dydd heddiw lle bynnag yr ydych. Mae Duw yn ffyddlon ac yn driw i'w addewid y bydd yn dod yn agos at bawb sydd yn ei geisio, beth bynnag fo'u hamgylchiadau, ac y bydd yn rhoi ei Ysbryd i'r sawl sydd yn gofyn am gael gweld yr Arglwydd o waelod calon. Chwiliwn ein calonau felly a cheisio Duw mewn ffydd gan wybod ei fod yn gwobrwyo pawb sydd yn ei geisio!

Daeth Arlywydd America draw yr wythnos yma a chadarnhau y berthynas "arbennig" sydd rhyngom fel gwledydd. Perthynas hanesyddol sydd gyda'r cryfaf yn y byd yn ôl y sôn. Daeth 1,500 o bobl hefo fo – a'r cwbl hefo swyddogaethau gwahanol i'w ddiogelu, i'w alluogi i weithio, i'w gario o un lle i'r llall, a'i fwydo hefyd am wn i! Erbyn hyn mae'n perthynas yn un "arbennig" ond hefyd yn "angenrheidiol"! Be ddoi o'r byd hebdo ni dwedwch?

Wrth geisio presenoldeb Duw yn ein bywyd rydym yn gofyn am berthynas hefo Brenin Brenhinoedd ac Arglwydd Arglwyddi! Yr Un y mae holl osgordd y nefoedd yn ufuddhau iddo ac yn gwneud Ei ewyllys! Yr Un sy'n gallu chwythu ar Lywodraethwyr mawr y byd a rheini yn cael eu symud fel mân lwch y cloriannau neu yn darford amdanynt fel blodau'r maes! (Eseia 40: 7, 23, 24)

Rhyfeddod mawr y neges sydd ganddom i'w rhannu ydi bod Duw yn ein galw ni, er pa mor ddi-nod yr ydym, i berthynas "arbennig" hefo fo'i Hun – perthynas sydd yn wirioneddol "angenrheidiol"! Perthynas ydi hon sy'n rhoi yr urddas mwyaf arnom ac sydd yn werthfawr gan Dduw ei Hun!

Mae'r Beibl yn disgrifio'r berthynas yma. Mae'r Gair yn dweud yn glir drwyddo draw sut y medrwn ddod i'r berthynas arbennig ac angenrheidiol yma a sut y medrwn aros yn y berthynas. Yn fwy na hynny – mae'r Gair hefyd yn darlunio'r budd anfeidrol a gawn o fod yn y berthynas. Un budd sy'n fwy gwerthfawr na dim sydd yn y byd yw'r sicrwydd a gaiff ei roi gan Dduw i bob un o'i blant eu bod yn ddiogel am byth 'yng Nghrist'.

'Diogelwch' rhyngwladol i raddau helaeth yw sail a nod y berthynas 'angenrheidiol' sydd rhyngom a'r America. Mae Duw wedi gwneud ein diogelwch tragwyddol ni yn nod i'w berthynas Ef hefo ni. Mae wedi diogelu na fedr dim byd na neb gondemnio'r plentyn y mae o ei Hun wedi ei fabwysiadu a'i gyfiawnhau yng Nghrist. Dyma beth yw bod mewn lle diogel go iawn! (Rhufeiniaid 8: 1, 33-34)

Ac os medrai Barac Obama ganmol y berthynas hanesyddol sydd rhwng America a Phrydain dros gwta dair canrif, pa faint mwy yw braint y Cristion o fedru canmol y berthynas dragwyddol sydd wedi ei selio rhyngom â Duw yng Nghrist ein Harglwydd?! Crist yw dechrau a diwedd y berthynas arbennig ac angenrheidiol y mae Duw am ei sefydlu hefo ni.

Gweddiwn am fendith Duw felly ar oedfaon y dydd ac ar bob gair a fydd yn dyrchafu Iesu trwy'n gwlad. Byddaf ym Mhen Llŷn heddiw ymhell o sw'n cyfri pleidleisiau! Ond byddaf yn awchus hefyd am gael derbyn galwad ffôn yn y man!

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Gan ei bod yn bumed Sul, ni fydd **Oedfa i'r Fro** yn Llansannan heno.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elinor Owen, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma • Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddwy oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau yn bleidiol i alw Aneurin yn weinidog ar yr eglwysi ym Mro Aled. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf • Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma • Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddwy oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau yn bleidiol i alw Aneurin yn weinidog ar yr eglwysi ym Mro Aled. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf • Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma • Bydd Mrs Nesta Davies yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddwy oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau yn bleidiol i alw Aneurin yn weinidog ar yr eglwysi ym Mro Aled. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf • Bydd Meirion yn arwain oedfa undebol ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma • Bydd Mrs Nia Royles yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau yn bleidiol i alw Aneurin yn weinidog ar yr eglwysi ym Mro Aled. Ni fydd Ysgol Sul i'r plant.
- Sul nesaf • Bydd Meirion yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma • Bydd rhai o'r aelodau yn cymryd rhan ddechreuol yr oedfa yn Nhanyfron am 2.00 a'r Parch Wayne Roberts yn pregethu, a'r Parch Irfon Parry yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00. Yn ystod y ddwy oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn gofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau yn bleidiol i alw Aneurin yn weinidog ar yr eglwysi ym Mro Aled.
- Sul nesaf • Bydd Meirion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac oedfa undebol ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma • Bydd Mrs Enid Davies yn arwain oedfa yn Henllan am 2.00 a Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddwy oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau yn bleidiol i alw Aneurin yn weinidog ar yr eglwysi ym Mro Aled. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf • Bydd Meirion yn arwain oedfa undebol ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair - 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i
Aneurin - 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau